

Crynodeb Gwirio Ansawdd

The Beauty Collection

Dyddiad y gweithgarwch: 14 Rhagfyr
2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o The Beauty Collection fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Noc Penfro ac mae'n cynnig ystod o wasanaethau ar gyfer oedolion, gan gynnwys gwaredu/lleihau gwallt, adfywiogi'r croen, gwaredu tatwau a gwaredu pigmentiad.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 14/12/2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut ydych yn sicrhau bod trefniadau glanhau ac atal a rheoli heintiau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut ydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a bod urddas cleifion yn cael ei gynnal? Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud o ganlyniad i COVID-19, os o gwbl?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut ydych yn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal effeithiol a diogel?
- Sut ydych yn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd priodol a diogel, gan gynnwys sut mae offer laser yn cael eu cynnal yn briodol?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol
- Polisi/gweithdrefnau diogelwch tân

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o gamau mae'r gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig i helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y rhain yn cynnwys gorsafoddd diheintio dwylo a chyfleusterau golchi dwylo ychwanegol drwy'r clinig, yn ogystal â gweithredu system un i mewn, un allan, a glanhau rhwng pob cleient. Gofynnir i gleifion gyrraedd mewn pryd ar gyfer eu hapwyntiad er mwyn osgoi pobl ychwanegol yn yr ystafell aros. Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddefnyddio ac y gofynnir i gleifion wisgo masg wyneb. Os yw cleient wedi'i eithrio rhag gwisgo masg wyneb, cynigir feisor iddo, a phe bai'n gwrthod ei wisgo, dywedir wrtho na ellir cynnal y driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi derbyn a gweithredu arweiniad a chynngor gan gyhoeddiadau'r llywodraeth yn ogystal â'i gynghorydd diogelu laser. Mae'r cynngor wedi ei alluogi i weithredu'r newidiadau a restrwyd uchod, sy'n helpu i ddarparu amgylchedd mwy diogel i'w staff a'i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod asesiad risg amgylcheddol wedi'i gwblhau ym mis Ebrill 2021. Gwelsom hefyd bolisi tân oedd wedi'i gwblhau ac a oedd yn gyfredol ar gyfer y lleoliad.

Mae urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal gan fod yna ystafelloedd triniaeth ar wahân yn y clinig a dim ond un claf sydd mewn ystafell ar y tro. Dim ond ym mhreifatrwydd yr ystafelloedd triniaeth y bydd staff yn trafod triniaethau â chleifion ac maent bob amser yn sicrhau bod cleifion yn cael eu gorchuddio gymaint â phosibl yn ystod y gweithdrefnau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym nad yw'r clinig yn cynnig gwybodaeth a gwasanaethau dwyieithog yn rheolaidd i'w gleifion ac na ofynnwyd am y rhain hyd yn hyn.

Rydym felly yn argymhell adolygu Safon 18 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cyfathrebu'n

effeithiol), sy'n nodi bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf sy'n ystyried anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Yn ogystal, mae Rheoliad 9 (1) (g) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn gofyn i'r darparwr cofrestredig fod â pholisi ar waith sy'n amlinellu sut mae'n rhoi gwybodaeth i gleifion. Dylai'r polisi hwn amlinellu sut bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a rhoi gwybodaeth yn y Gymraeg pe bai claf yn gofyn am hynny.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig ystod o gamau yr oedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig i helpu i hyrwyddo arferion da o ran atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol gan staff a chleientiaid bob amser, cymryd tymheredd pob cleient wrth iddynt gyrraedd, a chwblhau rhestr lanhau ar ôl pob claf. Mae dau doiled yn y practis, sy'n cael eu glanhau ar ôl pob defnydd gan gleient. Anogir cleientiaid i fynd i'r toiled cyn mynychu eu hapwyntiad er mwyn osgoi defnyddio'r rhai yn y lleoliad.

Cawsom ein hysbysu bod staff wedi cwblhau hyfforddiant gwisgo a diosg i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo'n gywir. Mae canllawiau'r GIG wedi cael eu dilyn yn agos hefyd, gyda rheolwr y practis yn hysbysu staff a chynnal hyfforddiant ynglŷn ag unrhyw ddiweddariadau i'r canllawiau perthnasol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Nid wnaeth rheolwr y practis roi copi o'r polisi a/neu weithdrefnau atal a rheoli heintiau ar gyfer y practis i ni. Argymhellwn fod rheolwr y practis yn sicrhau bod y polisi hwn yn gyfredol a bod copi'n cael ei anfon atom cyn gynted â phosibl.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Y datganiad o ddiben diweddaraf
- Y daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion
- Protocol meddygol arbenigol
- Polisi cydsyniad gwybodus
- Templed ffurflen cydsyniad cleifion gwag
- Templed hanes meddygol gwag
- Contract cynghorydd diogelu laser
- Y rheolau lleol diweddaraf
- Y cofnodion graddnodi a gwasanaethu laser diweddaraf
- Tystysgrif atebolrwydd yswiriant
- Tystysgrifau hyfforddiant offer laser ar gyfer pob gweithredwr laser
- Tystysgrifau craidd gwybodaeth ar gyfer pob gweithredwr laser
- Polisi diogelu a thystysgrifau diogelu

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom dystiolaeth i gadarnhau bod y gweithredwyr laser wedi mynychu'r cwrs craidd gwybodaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Darparwyd tystysgrifau hefyd i gadarnhau bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r laser yn llwyddiannus.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amod cofrestru i drin cleifion dros 18 oed yn unig. Roedd y gweithdrefnau y bydd y gwasanaeth yn eu dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu yn codi wedi eu manylu yn ei bolisi diogelu. Gwelsom ardystiad fod y gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 2.

Dywedwyd wrthym am y gwiriadau a fyddai'n cael eu cwblhau pe bai staff newydd yn cychwyn yn y stiwdio i sicrhau eu bod yn addas. Cawsom gadarnhad bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y gweithredwyr laser.

Cawsom y copi diweddaraf o ddatganiad o ddiben y gwasanaeth, a oedd yn cynnwys yr holl

wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cyflenwi triniaeth yn ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i egluro triniaethau i gleifion, sut mae anghenion triniaeth yn cael eu hasesu, a sut mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r offer laser.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr holl gleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb ag aelod o staff cyn cychwyn unrhyw driniaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i gleifion ar ffurf ysgrifenedig a chaniatáu amser i'r darpar gleifion ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ac ystyried eu hopsiynau am driniaeth. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, caiff pwysigrwydd gofal cyn triniaeth ac ar ôl triniaeth ei drafod ac, unwaith mae'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i darllen a'i deall, caiff ei llofnodi gan y cleient a'r therapydd. Cesglir hanes meddygol fel rhan o'r ymgynghoriad i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd. Mae'r hanes hwn yn cael ei wirio a'i llofnodi gan y claf am unrhyw newidiadau cyn unrhyw driniaeth ychwanegol.

Gwnaethom ystyried sut roedd yr offer laser a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u cynnal trwy gydol y pandemig i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Canfuom y canlynol:

- Roedd rheolau lleol ar waith ac wedi'u hysgrifennu gan gynghorydd diogelu laser. Roedd y rheolau lleol yn cynnwys y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio laserau yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau.
- Roedd offer laser wedi cael eu gwasanaethu a'u hailraddnodi yn ddiweddar.
- Roedd hyfforddiant craidd gwybodaeth¹ wedi cael ei gwblhau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

¹ Mae hyfforddiant craidd gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: The Beauty Collection

Dyddiad y gweithgarwch: 14/12/2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Argymhellwn fod rheolwr y practis yn ystyried datblygu polisi sy'n amlinellu sut byddai'r gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a rhoi gwybodaeth yn y Gymraeg pe bai claf yn gofyn am hynny.	Safon 18 - Safonau Gofynnol Cenedlaethol Rheoliad 9 (1) (g) - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011	Bydd ein canllaw i gleifion a rhestr prisiau yn cael eu cyfieithu a'u hailargraffu yn Gymraeg. Rydym wedi gofyn i ddylunydd ein gwefan hefyd i ychwanegu'r cyfleuster hwn at ein gwefan gyda nodyn yn datgan nad oes gan y staff y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar hyn o bryd ond y gellir gweld pob darn o wybodaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â thriniaethau yn Gymraeg ar gais.	Andrea Davies	Dau fis
2	Argymhellwn fod rheolwr y practis yn datblygu polisi rheoli heintiau cyfredol ac yn rhoi copi i ni cyn	Rheoliad 9 (1) (n) - Safonau Gofal Iechyd	Polisi atal a rheoli heintiau wedi'i lanlwytho.	Andrea Davies	30/12/2021

	gynted â phosibl.	Annibynnol			
--	-------------------	------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Andrea Davies

Dyddiad: 30/12/2021